



Ysgol Pen-y-Cwm

Strand Annealing Lane
Glynebwy
NP23 6AN
Tel: 01495 369535
e-bost:schooladmin@penycwm.com
Pennaeth: Mrs D Herald BA'Ed (Anrh), N.P.Q.H



Teitl:	HLTA
Cyflog:	Gradd 6 Graddfa Gyflog Llywodraeth Leol yr NJC
Oriau:	32.5 awr
Contract:	Parhaol

Crynodeb o'r Swydd

Rydym am benodi Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch (HLTA) arloesol i ymuno â thîm o staff brwdfrydig, egnïol ac ymroddedig i gefnogi dysgwyr 3-19 oed ag anghenion cymhleth.

Hysbyseb

Rydym am gyflogi Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch (HLTA) i gefnogi dysgwyr ar draws yr ysgol. Gall hyn gynnwys cefnogi ein tîm lles, gweithio gydag unigolion wedi'u targedu, mewn grwpiau bach neu mewn lleoliadau dosbarth cyfan yn cwmpasu Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA).

Efallai y bydd gofyn i chi gynllunio, cyflwyno ac asesu addysgu a dysgu un i un, grwpiau bach neu ddosbarth cyfan ar draws ystod oedran lawn ein hysgol yn absenoldeb yr athro dosbarth.

Bydd angen i chi fod yn hyblyg wrth ddarparu cymorth wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio i ddiwallu anghenion ein dysgwyr.

Byddai'r swydd yn addas ar gyfer rhywun gyda hyblygrwydd, brwdfrydedd a sensitifrwydd yn ogystal â dealltwriaeth ragorol o ADY. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol brofiad o dechnegau rheoli dosbarth effeithiol. Cânt eu cefnogi gan dîm arwain canol ac uwch tosturiol er mwyn datblygu eu sgiliau arwain eu hunain.

Rhaid i'r ymgeisydd fod yn barod i ddangos ei fod yn chwaraewr tîm ochr yn ochr â'n tîm sefydledig o HLTAs, gan gynnal ein gwerthoedd craidd trwy:

- Galluogi dysgwyr i fod yn llwyddiannus trwy ddatblygu a chefnogi agweddau rhagorol at ddysgu
- Meithrin perthnasoedd cryf gyda dysgwyr ar draws yr ysgol, gan alluogi dysgu i barhau yn absenoldeb eu hathro dosbarth

Bydd angen i chi ddangos sgiliau cyfathrebu a threfnu rhagorol. Rhaid i chi fod yn ddyfeisgar, yn bositif, yn wydn yn emosiynol a bod ag agwedd gyfannol at gefnogi anghenion plant a phobl ifanc. Mae'r gallu i gyfrannu at ethos cynnes, gofalgar ein hysgol yn hanfodol.

Dyddiad Cau: Dydd Llun 25ain o Dachwedd 2024 am 9:00am

Dyddiad llunio rhestr fer: Dydd Mawrth 26ain o Dachwedd 2024

Dyddiad Cyfweld: Dydd Llun 2il o Ragfyr 2024

Mae'r sefydliad hwn wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc (Erthygl 23 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).

Hysbysiad Preifatrwydd

Mae cyfraith Diogelu Data wedi newid, am fwy o wybodaeth a mynediad at hysbysadau preifatrwydd yn amlinellu sut mae'r Ysgol yn trin eich data personol, ewch i'r adran Diogelu Data ar wefan yr Ysgol.